

## Beth yw dyneiddiaeth?: gweithgaredd llenwi'r bylchau

Mae dyneiddiaeth yn agwedd neu fyd-olwg \_\_\_\_\_ at fywyd y mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn ei rannu. Mae dyneiddwyr yn credu ei bod hi'n bosibl byw bywyd da, hapus, ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle \_\_\_\_\_ heb unrhyw elfen oruwchnaturiol. Byddan nhw'n anffyddwyr neu'n agnostig. Maen nhw'n credu bod \_\_\_\_\_, a chwilio am \_\_\_\_\_, yn rhoi'r ffordd orau i ni o ateb ein cwestiynau am y byd.

Mae gwyddoniaeth wedi darganfod bod bodau dynol wedi \_\_\_\_\_ yn naturiol fel pob peth byw arall. Mae llawer o ddyneiddwyr yn dathlu llawer o'n galluoedd naturiol a'n cyflawniadau. Maen nhw'n aml yn obeithiol am ein \_\_\_\_\_ i wneud bywyd yn well i'n hunain ac eraill.

Mae dyneiddwyr yn credu mai dyma'r \_\_\_\_\_ sydd gennym ac felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. I ddyneiddwyr, nid oes un ystyr 'sylfaenol' i fywyd. Yn hytrach, ein lle ni yw gwneud ein bywydau ein hunain yn ystyrlon. Maen nhw'n credu y dylem ni i gyd fod yn \_\_\_\_\_ i benderfynu sut yr ydym yn byw (ar yr amod nad ydym yn achosi niwed i eraill). Dylem ni geisio dod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud yn \_\_\_\_\_ a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

Mae llawer o ddyneiddwyr yn credu bod moesoldeb yn tarddu o'r tu mewn i fodau dynol a'n hesblygiad fel anifail cymdeithasol. Mae llawer yn dweud, wrth benderfynu sut i weithredu, y dylem ni ddefnyddio rheswm ac \_\_\_\_\_, gan ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl eraill ac anifeiliaid.

I ddyneiddwyr, bodau dynol yn unig sy'n \_\_\_\_\_ am wneud y byd yn lle gwell. Mae nifer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb, hawliau dynol, a \_\_\_\_\_ (gwladwriaeth sy'n gwarantu rhyddid cred fel bod neb â mantais neu o dan anfantais oherwydd eu crefydd neu gred). Maen nhw'n dathlu'r cynnydd y mae'r ddynoliaeth wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sydd eto i'w wneud.

hapus	digrefydd	empathi	naturiol	potensial	dystiolaeth
gwyddoniaeth	seciwlariaeth	esblygu	rhydd	gyfrifol	unig fywyd

## Beth yw dyneiddiaeth?: gweithgaredd llenwi'r bylchau

Mae dyneiddiaeth yn agwedd neu fyd-olwg **digrefydd** at fywyd y mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn ei rannu. Mae dyneiddwyr yn credu ei bod hi'n bosibl byw bywyd da, hapus, ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle **naturiol** heb unrhyw elfen oruwchnaturiol. Byddan nhw'n anffyddwyr neu'n agnostig. Maen nhw'n credu bod **gwyddoniaeth**, a chwilio am **dystiolaeth**, yn rhoi'r ffordd orau i ni o ateb ein cwestiynau am y byd.

Mae gwyddoniaeth wedi darganfod bod bodau dynol wedi **esblygu** yn naturiol fel pob peth byw arall. Mae llawer o ddyneiddwyr yn dathlu llawer o'n galluoedd naturiol a'n cyflawniadau. Maen nhw'n aml yn obeithiol am ein **potensial** i wneud bywyd yn well i'n hunain ac eraill.

Mae dyneiddwyr yn credu mai dyma'r **unig fywyd** sydd gennym ac felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. I ddyneiddwyr, nid oes un ystyr 'sylfaenol' i fywyd. Yn hytrach, ein lle ni yw gwneud ein bywydau ein hunain yn ystyrlon. Maen nhw'n credu y dylem ni i gyd fod yn **rhydd** i benderfynu sut yr ydym yn byw (ar yr amod nad ydym yn achosi niwed i eraill). Dylem ni geisio dod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud yn **hapus** a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

Mae llawer o ddyneiddwyr yn credu bod moesoldeb yn tarddu o'r tu mewn i fodau dynol a'n hesblygiad fel anifail cymdeithasol. Mae llawer yn dweud, wrth benderfynu sut i weithredu, y dylem ni ddefnyddio rheswm ac **empathi**, gan ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl eraill ac anifeiliaid.

I ddyneiddwyr, bodau dynol yn unig sy'n **gyfrifol** am wneud y byd yn lle gwell. Mae nifer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb, hawliau dynol, a **seciwlariaeth** (gwladwriaeth sy'n gwarantu rhyddid cred fel bod neb â mantais neu o dan anfantais oherwydd eu crefydd neu gred). Maen nhw'n dathlu'r cynnydd y mae'r ddynoliaeth wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sydd eto i'w wneud.

hapus	digrefydd	empathi	naturiol	potensial	dystiolaeth
gwyddoniaeth	seciwlariaeth	esblygu	rhydd	gyfrifol	unig fywyd